

# Ein Gwlad

## Darllen: Salm 98:3

Gweledigaeth George MacLeod oedd mynd ati i sefydlu Cymuned Iona, ar Ynys Iona yn yr Alban yn 1938. Mae eglureb MacLeod yn enwog erbyn hyn. Taflodd bachgen garreg at ffenestr liw mewn eglwys a tharo'r llythyren 'e' yn y geiriau, 'Glory to God in the Highest'. Yr hyn a welwyd wedyn oedd, 'Glory to God in the High St.' A dyna fu ei weledigaeth weddill ei fywyd. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth oedd defnyddio neuadd yr eglwys yn ganolfan i'r gymuned gyfan. Nid mewn un o eglwysi'r ardal y dechreuodd ei waith ond yn y neuadd oedd yn perthyn i'r eglwys. A bu'r neuadd hon yn foddion i ddenu pobl y gymuned at ei gilydd, a daeth yn ganolfan i bawb. Roedd perthynas wedi'i sefydlu â'r gymuned. Ymhen dwy flynedd, lledaenodd ei weledigaeth i drawsnewid adfail yr Abaty ar Ynys Iona. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, perswadiodd ddynion o ardal Govan i ddod i'w gynorthwyo i ail adeiladu'r hen Abaty. Gwelodd y buasai'r abaty'n dod yn ganolfan ysbrydol, nid lle i ddianc iddo er mwyn cefnu ar y byd ond lle y gallent fynd iddo i gael eu hadnewyddu er mwyn medru mynd yn ôl i'w cymunedau i ganol berw bywyd bob dydd. Ymddiswyddodd MacLeod o'i eglwys yn Govan a symud i fod yn warden ar Gymuned Iona, cymuned a roddai bwyslais ar hyfforddi lleygwyr i amgyffred a deall y Ffydd Gristnogol. Mae'n werth i ni, fel cenedl, aros i sylwi ar reolau'r gymuned hon, sef darllen y Beibl, gweddio ddwywaith y dydd, stiwardiaeth ar amser ac arian, cyfarfod yn rheolaidd yn yr abaty, a gweithredu dros gyfiawnder a heddwch. Fyddai derbyn a gwireddu'r rheolau hyn yn gwneud gwahaniaeth i ni yng Nghymru heddiw?

Bûm yn weinidog ar gapel mawr, neu a bod yn fanwl gywir adeilad mawr, capel â galeri ynddo, a phulpudd enfawr, hardd. Sylw un a ddaeth i'r capel i angladd oedd, 'Mae'n fraint i chi gael pregethu o bulpudd mor fendigedig.' Ychydig a wyddai fy mod, yn amlach na pheidio, yn pregethu wrth y bwrdd yn y set fawr. Ond y lle yr oeddwn hapusaf ynddo oedd y festri ar nos Sul. Roeddwn yn agos at y bobl ac yn medru cyfathrebu'n uniongyrchol

â nhw. Yno, yn y festri yr oedd yr ‘eglwys’ yn cyfarfod, lle roedden ni efo’n gilydd. Yn neuadd yr eglwys, sylwer, y dechreuodd George MacLeod ar ei ymgyrchoedd.

Yr hyn a wnaeth MacLeod oedd torri’r rhagfuriau a chroesi ffiniau. Ein drwg ni yng Nghymru yw ein bod yn cadw’r rhagfuriau ac yn codi rhagor ohonynt. Mae syndrom ‘capel ni’, ‘enwad ni’ a ‘gweinidog ni’ yn rhwystr i groesi ffiniau. Ac onid labeli ydyn nhw yn y diwedd! Mae’r capeli mawr yn cau; mae rhai’n cael eu dymchwel ac eraill yn cael eu gwerthu. Dyma’r dymchwel a’r chwalu wedi dechrau. Dyma ddechrau cyfnod newydd. Nid y diwedd yw dymchwel y capeli, mae’n her i gyfnod newydd. Os nad oes capel yn eich bro chi, chwiliwch am neuadd neu aelwyd i ddechrau arni o’r newydd. Yn niwedd y ddeunawfed ganrif bu ymdrechion Thomas Charles i gynnal ysgolion Sul i oedolion yn fodd o roi Cymru ar y map. Gwelwyd ysgolion Sul yn Lloegr yn mabwysiadu ei orchestion, a’r un fu’r hanes dros Fôr yr Iwerydd. Cymru’n dangos y ffordd ymlaen. Dyma gyfle newydd i ni unwaith eto. Cymunedau yn arloesi.

### **Myfyrdod pellach:**

Sut mae’r syniad o groesi ffiniau yn eich taro chi?

Beth yw ystyr ‘gweinidogaeth yr holl saint’?